



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Wirfoddol Abergwili  
Gerddi Gyfre  
Abergwili  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 2JD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn       | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu  |
|------------|--|
| Rhagorol   | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da         | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol               |
| Digonol    | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella  |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau                                |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Abergwili ym mhentref Abergwili ar gyrion tref Caerfyrddin, yn Sir Gaerfyrddin ac o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 10% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r ysgol, yn amser llawn yn ystod y tymor maent yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 67 o ddisgyblion ar y gofrestr. Fe'u haddysgir gan ddwy athrawes amser llawn a dwy ran amser mewn tri dosbarth oed cymysg.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 21% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn yn is na chanrannau Cymru. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Chwefror 1995. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2009. Gan fod yr ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru, bydd yr Eglwys yn cynnal arolygiad ar wahân o addoli ar y cyd, a datblygiad ysbrydol y disgyblion.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol Abergwili yn 2015-2016 yn £3,317. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £8,382 a'r lleiafswm yw £3,111. Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Abergwili yn y safle 91allan o'r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

|                                       |           |
|---------------------------------------|-----------|
| <b>Perfformiad presennol yr ysgol</b> | <b>Da</b> |
| <b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>      | <b>Da</b> |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.
- safon medrau allweddol y disgyblion yn dda a bod bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth disgyblion yn uchel
- yr addysgu yn gyson dda
- yr ysgol yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion
- ethos teuluol, gofalggar a chroesawgar iawn yn bodoli, lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus ac yn cael eu trin â pharch

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- arweiniad y pennaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol
- y weledigaeth wedi ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr
- aelodau staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- y corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn dwyn arweinwyr i gyfrif am ei pherfformiad
- gweithdrefnau clir yn eu lle i fonitro perfformiad
- cydweithio llwyddiannus iawn yn bodoli gydag ystod o bartneriaethau, sy'n cyfrannu'n helaeth at wella safonau a lles y disgyblion

## Argymhellion

- A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion benderfynu'n annibynnol sut i gyflwyno eu gwaith
- A2 Cryfhau sylwadau athrawon ar waith disgyblion, i sicrhau eu bod yn deall yn well yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae asesiadau sylfaen o ddisgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau amrywiol, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i'r rhan fwyaf ohonynt. Fodd bynnag, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn arddangos medrau gwrando da. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio cystrawennau cywir a geirfa bwrpasol ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod eu gwaith yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio amrywiaeth cynyddol o eirfa addas, er enghraifft wrth drafod canlyniadau arbrawf gwyddonol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Mae bron pob disgybl yn gyfarwydd iawn â chwedlau traddodiadol, yn trafod eu cynnwys yn ystyrlon ac yn cyfeirio at eu hoff gymeriadau mewn llyfrau stori yn frwdfrydig. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau addas wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae mwyafrif y disgyblion yn talu sylw priodol i atalnodi ac yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant da.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn darllen i safon sy'n unolâ'u hoed a'u gallu ac yn trafod eu hoff lyfrau'n aeddfed, gan gyfeirio'n briodol at eu hoff awduron. Mae'r rhan fwyaf yn deall y gwahaniaeth rhwng llyfrau ffuglen a ffeithiol ac yn deall pwrpas tudalen cynnwys a mynegai. Defnyddiant eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am ynni cynaliadwy.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn cyfleu gwybodaeth mewn cyfres o frawddegau syml gan ddefnyddio atalnodi llawn a phrif lythyren gyda pheth cysondeb. Maent yn sillafu geiriau aml-ddefnydd yn gywir fel rheol, a'r rhan fwyaf yn cyflwyno eu gwaith yn daclus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dechrau dewis a dethol geiriau diddorol i greu effaith, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad yn dilyn dathliadau Diwrnod y Llyfr.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Maent yn creu darnau meddylgar, hynod ddarllenadwy gan ddangos gafael eithaf sicr ar ffurf, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr gan filwr yn

disgrifio profiadau ymladd mewn rhyfel. Maent yn defnyddio paragraffau synhwyrol i gyflwyno eu gwaith yn drefnus ac yn atalnodi'n lled gywir o fewn brawddeg gan ddefnyddio collnod a dyfnodau pan fo'u hangen. Mae bron pob disgybl yn cyflwyno'u gwaith yn daclus, gan ddefnyddio llawysgrifen glir.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn lwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth o dabl 2, 5 a 10 yn effeithiol wrth ddatrys problemau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o amser analog i'r awr, hanner a chwarter awr. Mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion siapiau gwahanol ac mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir wrth drafod eu gwaith. Gallant gasglu a chyflwyno gwybodaeth a chreu siartiau a graffiau i gofnodi eu gwaith yn gywir, er enghraifft wrth gymharu hoff ffrwythau disgyblion yr ysgol a chymharu'r deilliannau â data plant yn Kenya.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar fedrau rhifedd. Maent yn barod i gynnig atebion ac yna eu gwirio gan rannu eu canfyddiadau yn hyderus. Mae llawer yn cymhwyso eu dealltwriaeth o'r pedair rheol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gynllunio cyllideb ar gyfer gwersylla. Maent yn casglu a chynrychioli data mewn tasgau ymchwiliol yn ddeallus ac yn defnyddio eu medrau yn hyderus wrth ddatrys problemau rhesymu, fel cyfrif cost biliau trydan.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae nifer y disgyblion wedi bod yn isel. O ganlyniad, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ystyrion wrth eu hystyried. Mae canlyniadau un neu ddau ddisgybl, ar adegau, yn gallu dylanwadu llawer ar berfformiad y garfan gyfan. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Gwna'r disgyblion ddefnydd priodol o'u medrau iaith a rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwylidig o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi bod yn uwch na'r canolrif mewn tair allan o'r pedair blynedd mewn medrau iaith a mathemateg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch mewn iaith wedi bod yn uwch na'r canolrif mewn tair allan o'r pedair blynedd ond yn is mewn medrau mathemateg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau disgwylidig ac uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng bod yn uwch na'r canolrif mewn rhai blynyddoedd i fod yn is mewn eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen, a chyfnod allweddol 2, mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi bod yn fach, felly mae unrhyw gymhariaeth synhwyrol rhyngddynt â disgyblion eraill yn annibynadwy. Mae'r un peth yn wir wrth gymharu perfformiad bechgyn a merched.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini, ac maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau chwaraeon fel Clwb Campau'r Ddraig.

Mae safon ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn uchel yn ystod y gwersi ac yn ystod amser egwyl. Dangosant barch a gofal at eu cyfoedion ac at oedolion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau eu gwersi, maent yn frwdfrydig ac yn ymateb a chanolbwyntio'n briodol ar eu tasgau. Fodd bynnag, cyfyng yw gallu'r disgyblion i wella eu gwaith eu hunain ac i weithio'n annibynnol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn frwdfrydig iawn ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned ysgol. Maent yn gweithio'n effeithlon ac yn dylanwadu ar benderfyniadau drwy ystyried, er enghraifft, sylwadau eraill sy'n defnyddio'r 'Bocs Syniadau'. Mae hyn wedi arwain, er enghraifft, at ddefnyddio elw'r siop ffrwythau i brynu 'Mainc Ffeindio Ffrind'. Mae hyn yn sicrhau nad oes angen i neb deimlo'n unig amser egwyl.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan mewn ystod o weithgareddau yn y gymuned, er enghraifft cynnal cyngerdd Nadolig, ac fe wneir defnydd cyson o'r amgueddfa leol i gyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae 'Wâc Welis' wythnosol disgyblion y Cyfnod Sylfaen o gwmpas y pentref yn meithrin ymdeimlad o berthyn ynddynt o'u cymuned.

Mae lefelau presenoldeb yn dda ac wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair allan o'r pedair blynedd diwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

|  |           |
|--|-----------|
| <b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b> | <b>Da</b> |
|--|-----------|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio ystod o brofiadau diddorol sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd bron pob disgybl ac yn bodloni gofynion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn effeithiol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol gyda'r cynlluniau yn sicrhau dilyniant, parhad a lefel briodol o her i bron pob disgybl wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r cynlluniau yn cynnwys nifer o ymweliadau pwrpasol a pherthnasol i ardaloedd lleol a thu hwnt, gan gynnwys amgueddfa'r pentref, Cynulliad Cymru, Pentre Bach ac oriel gelf yn Llundain. Mae'r ymweliadau hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mewn partneriaeth â'r eglwys, cynigir ystod dda o weithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion, gan gynnwys cerddoriaeth, chwaraeon, crefft a choginio. Mae'r rhain eto yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gadarn iawn. Mae'r oedolion yn modelu iaith yn effeithiol, â'r cynlluniau gwaith yn sicrhau cymhwysedd priodol mewn medrau llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'r



gweithgareddau i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u diwylliant, eu hanes a'u traddodiadau yn amrywiol a diddorol. Mae'r staff yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyson i gystadlu mewn eisteddfodau, gweithdai gan feirdd, dysgu clocsio a dysgu am ddigwyddiadau hanesyddol pwysig.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol ar draws y cwricwlwm. Caiff y disgyblion gyfleoedd i ddysgu am wledydd a diwylliannau eraill fel yr Affrig a Lesotho. Mae'r pwyllgor eco yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd arbed ynni ac ailgylchu yn addas.

### **Addysgu: Da**

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau dysgu'n fedrus i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau.

Mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu yn glir ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn gyson yn ystod y gwersi. Mae athrawon yn holi disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl yn gyson ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion benderfynu'n annibynnol ar sut i gyflwyno'u gwaith.

Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd, ac mae sylwadau'r athrawon yn aml yn nodi llwyddiant y disgyblion yn y dasg. Fodd bynnag, prin yw'r sylwadau adeiladol a fyddai'n rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eraill ond nid ydynt eto wedi cael llawn effaith ar fedrau'r disgyblion i wneud hyn yn ddigon effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd effeithiol o ddeilliannau profion safonol ac asesiadau athrawon. O ganlyniad, mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod tasgau priodol ar eu cyfer.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed iach, ac ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini.

Mae'r ysgol yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus trwy weithgareddau'r cwricwlwm, cyfnodau amser cylch a gweithdai perthnasol. Mae medrau diwylliannol y disgyblion yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol. Enghreifftiau nodweddiadol yw'r ymweliad ag oriel gelf yn Llundain a chymryd rhan yn y "Proms".

Mae'r cysylltiadau effeithiol sy'n bodoli gydag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol yn sicrhau cymorth ac arweiniad buddiol i ddisgyblion a rhieni pan fo'i angen.

Mae gan yr ysgol drefniadau trwyadl ar gyfer nodi a monitro disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wybodaeth asesiadau ffurfiol ac asesiadau athrawon i adnabod y disgyblion hyn yn gynnar. Mae'r athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol o ansawdd da i'r disgyblion hyn, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ar y cyd â'r rhieni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn llwyddiannus, trwy fonitro cyson a chysylltu'n rheolaidd â'r rhieni. Mae canran presenoldeb wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn tair allan o'r pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae trefniadau'r ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n bodoli ynddi. Mae'n gymuned gynhwysol, groesawgar a gofalgwr iawn, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

Mae pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i gwricwlwm cytbwys i'r holl ddisgyblion. Mae parch at wahaniaeth a chydarddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy waith amrywiol, gan gynnwys astudio gwledydd tramor fel Botswana a Lesotho.

Mae'r adeilad o ansawdd da a gwneir defnydd effeithiol ohono. Mae ardal allanol y Cyfnod Sylfaen wedi ei datblygu mewn modd creadigol i gyfoethogi profiadau dysgu ysgogol i'r disgyblion. Mae'r iard chwarae yn lliwgar ac yn cynnwys potiau blodau amryliw, wal ddringo a llwybr antur ddeniadol. Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar y cyfleusterau sydd ar gael iddynt yn y pentref, fel y parc lleol a chae chwarae'r tîm pêl-droed.

Mae gan yr ysgol gyflenwad amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd uchel yn y dosbarthiadau sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae'r arddangosfeydd deniadol o waith y disgyblion o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol sy'n ysgogi'r dysgu yn dda. Maent hefyd yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae glanweithdra o safon uchel. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

|  |           |
|--|-----------|
| <b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b> | <b>Da</b> |
|--|-----------|

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweiniad pwrpasol y pennaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol ac mae'r weledigaeth 'Hedyn Heddiw, Blodyn Yfory' yn adnabyddus i bawb.

Caiff y pennaeth ei chefnogi'n dda gan aelodau'r staff ac maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm er budd y disgyblion. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae strwythurau a pholisïau clir ar waith ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac effeithiol.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. O ganlyniad, mae pob aelod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda mewn perthynas â chynlluniau strategol yr ysgol. Defnyddiant yr holl wybodaeth monitro yn effeithiol wrth ymateb i'r camau gweithredu a nodir yng nghynllun datblygu'r ysgol. Er enghraifft, mae'r drefn o ddadansoddi asesiadau a gosod targedau priodol ar lefel ysgol gyfan yn heriol ond yn realistig.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol. Maent yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol ac yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff. Er enghraifft, mae'r ffocws ar wella darllen yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi'u sefydlu'n llwyddiannus. Hyrwyddir y Gymraeg, hanes a diwylliant Cymru yn effeithiol iawn mewn sawl maes.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn gweithredu'n dda fel ffrindiau beirniadol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau clir ar waith i fonitro perfformiad yr ysgol. Mae dadansoddi data yn rhan annatod o'r broses a chesglir ystod eang o dystiolaeth yn effeithiol, gan gynnwys arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a siarad â dysgwyr. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi helpu'r ysgol i ffurfio adroddiad hunanarfarnu defnyddiol sy'n adnabod yn glir y cryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu.

Mae safbwyntiau staff, rhieni a disgyblion yn cefnogi'r broses arfarnu yn briodol. Rhoddir sylw da i lais y disgyblion drwy sesiynau amser cylch, cyngor yr ysgol, bocs syniadau a holiaduron. Mae sylwadau a barn rhieni yn cael eu hystyried o ddifrif drwy holiaduron cyson.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn fanwl, yn nodi blaenoriaethau perthnasol a chyraeddadwy ac yn cynnwys manylion meini prawf

Ilwyddiant addas, sy'n canolbwyntio'n dda ar wella deilliannau disgyblion. Mae'r cynllun yn rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, amserlen gweithredu, gofynion cyllidol, cyfleoedd hyfforddiant a threfniadau monitro cynnydd. Caiff ei fonitro'n effeithiol gan y pennaeth a'r staff, ac mae hyn yn sicrhau y gwneir cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau. Mae camau gweithredu'r cynllun eisoes wedi cael effaith gadarnhaol, er enghraifft ar wella safon ysgrifennu'r disgyblion yn y Gymraeg a Saesneg.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a lles y disgyblion. Mae perthynas gref gyda'r rhieni, ac mae'r ysgol yn eu cynnwys yn dda yn addysg eu plant. Mae'r gymdeithas rhieni a ffrindiau yn codi arian sylweddol i gefnogi gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy brynu adnoddau ar gyfer TGCh. Mae hyn yn hybu medrau'r disgyblion yn dda.

Mae'r trefniadau pontio sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin, a chyda'r ddwy ysgol uwchradd leol, yn effeithiol ac yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cyfnodau nesaf yn eu haddysg.

Mae cysylltiadau cryf yn bodoli gyda'r gymuned leol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd diddorol i ddatblygu eu medrau mentergarwch drwy gynhyrchu, arddangos a gwerthu eu gwaith celf yn oriel y dref. Maent yn arwain gwasanaethau yn yr eglwys, yn ymweld â busnesau lleol ac yn plannu coed yn y parc cyfagos. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol at hybu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfrannu at fywyd y gymuned.

Mae'r cydweithio sy'n bodoli gydag ysgolion y dalgylch yn fuddiol. Mae'r ysgolion yn derbyn hyfforddiant ar y cyd i godi safonau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion ac i safoni a chymedroli eu gwaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac yn sicrhau cytundeb wrth lefelu gwaith y disgyblion.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cynorthwyol profiadol er mwyn ymdrin â phob agwedd o'i gwaith. Mae cyfraniad a chefnogaeth y cymorthyddion dosbarth yn gryfder yn yr ysgol; maent yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar wella cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg iawn yn y defnydd pwrpasol a wneir o'r ardal allanol, y cae chwarae a'r cyfleusterau yn y gymuned.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff mewn meysydd priodol sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol, ynghyd â blaenoriaethau penodol y staff.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r nifer o rwydweithiau dysgu sy'n bodoli o fewn yr ysgol a thu hwnt yn cynnig ystod eang o gyfleoedd priodol i athrawon a chymorthyddion gydweithio ar gynllunio rhaglenni gwaith diddorol ac

ysgogol i'r disgyblion. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r disgyblion ac wedi arwain at wella medrau ysgrifennu'r disgyblion yn y Gymraeg a Saesneg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi ei threfnu'n dda.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus iawn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer gwella agweddau cymdeithasol y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gymhelliant a hyder disgyblion sydd ag anghenion penodol.

O ystyried y deilliannau da, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6693000 - Ysgol Wirfoddol Abergwili

|   |                 |
|---|-----------------|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr  | 70              |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.6             |
| Grŵp PYD  | 2 (8%<PYD<=16%) |

#### Cyfnod Sylfaen

|  | 2012  | 2013  | 2014  | 2015  |
|--|-------|-------|-------|-------|
| <b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>                                    | 7     | 5     | 11    | 11    |
| <b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>                              | 71.4  | 80.0  | 90.9  | 81.8  |
| Chwarter meincnod  | 4     | 3     | 2     | 4     |
| <b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>                     |       |       |       |       |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan  | *     | *     | *     | *     |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%)   | *     | *     | *     | *     |
| Chwarter meincnod  | *     | *     | *     | *     |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%)   | *     | *     | *     | *     |
| Chwarter meincnod  | *     | *     | *     | *     |
| <b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)</b>                     |       |       |       |       |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan  | 7     | 5     | 11    | 11    |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%)   | 71.4  | 80.0  | 90.9  | 81.8  |
| Chwarter meincnod  | 4     | 3     | 3     | 4     |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%)   | 42.9  | 20.0  | 63.6  | 36.4  |
| Chwarter meincnod  | 1     | 3     | 1     | 2     |
| <b>Datblygiad mathemategol (MDT)</b>   |       |       |       |       |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan  | 7     | 5     | 11    | 11    |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%)   | 85.7  | 80.0  | 100.0 | 90.9  |
| Chwarter meincnod  | 3     | 4     | 1     | 3     |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%)   | 0.0   | 0.0   | 36.4  | 27.3  |
| Chwarter meincnod  | 4     | 4     | 2     | 4     |
| <b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)</b> |       |       |       |       |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan  | 7     | 5     | 11    | 11    |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%)   | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
